

Ymateb Estyn i'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gymunedol Tonyrefail.

Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

Crynodeb / Casgliad

Mae Estyn yn ystyried bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal, o leiaf.

Disgrifiad a manteision

Mae'r awdurdod lleol wedi amlinellu rhesymeg glir ar gyfer ei gynnis. Mae'n amlinellu'n dda fanteision niferus yn sgil throsglwyddo disgyblion i ysgol wedi'i hadeiladu'n bwrpasol ar gyfer addysg yn yr 21^{ain} ganrif. Mae Ysgol Gymunedol Tonyrefail yn ysgol pob oed sy'n cynnig darpariaeth addysg uwchradd ar gyfer dalgylch Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg. Gan fod Ysgol Gymunedol Tonyrefail yn ysgol newydd, mae wedi'i graddio'n 'A' am gyflwr ac 'A' am addasrwydd. Mae ganddi gyfleusterau sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd gan y gymuned leol, gan sicrhau bod pobl eraill yn elwa ar yr adnoddau newydd sydd ar gael.

Mae safle ac adeilad yr ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn rhan o'r buddsoddiad sylweddol yn Ysgol Gymunedol Tonyrefail, roedd ffocws penodol ar wella'r trefniadau rheoli traffig ar y safle ac oddi ar y safle, yn cynnwys lleoedd parcio gwell ar gyfer staff a chreu ardal ollwng ddynodedig ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol.

Mae'r awdurdod lleol wedi nodi gostyngiad yn niferoedd y disgyblion yn Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg dros y pum mlynedd ddiwethaf. Mae'r ysgol yn gweithredu islaw ei chapasiti o ran niferoedd disgyblion. Mae angen gwneud gwaith atgyweirio ac adnewyddu mawr i'r adeilad presennol; cost y gwaith cynnal a chadw sy'n aros i gael ei wneud yw rhyw £381,040. Nid yw hyn yn cynnwys y cyllid sydd ei angen i wella hygyrchedd a chydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu disgrifiad addas o fanwl o'r cynnig sy'n cynnwys amcan o amserlen ar gyfer gweithdrefnau statudol.

At ei gilydd, mae'r cynigiwr yn nodi'n glir ac yn deg y manteision a'r anfanteision disgwylidig o gymharu â'r sefyllfa bresennol a sut byddant yn rheoli unrhyw risg. Ar hyn o bryd, nid yw unrhyw ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn byw mwy nag 1.5 milltir o Ysgol Gymunedol Tonyrefail.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried yn rhannol effaith y newidiadau ar drefniadau teithio dysgwyr. Mae'r cynnig yn nodi bod yr awdurdod lleol wedi arfer pwerau dewisol y rhoddwyd iddo o dan ddarpariaethau Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i drefnu darpariaeth fwy hael i ddisgyblion. Mae'r maen prawf cymhwystra am bellter cerdded i ddisgyblion yn eu hysgol addas agosaf wedi'i osod ar 1.5 milltir, yn hytrach na 2 filltir, fel sy'n ofynnol gan y Mesur. Darperir hyn i ddisgyblion sy'n bodloni'r maen prawf cymhwystra 1.5 milltir o ddechrau'r cyfnod sylfaen.

Mae'r cynigiwr yn amlinellu pedwar dewis amgen i'r cynnig ac yn rhoi rhesymau derbyniol ynglŷn â pham mae wedi'u diystyru. Byddai'r holl ddewisiadau amgen addas yn cynnwys buddsoddiad ariannol sylweddol nad yw'n hyfyw ar hyn o bryd.

Mae'r cynigiwr wedi nodi risgiau posibl, ac mae'r capasiti presennol a rhagamcanol o ran lleoedd dros ben yn Ysgol Gymunedol Tonyrefail yn dangos bod diffyg gofod ar gael i wneud lle i'r disgyblion y cynigir y byddant yn adleoli o Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg. I liniaru yn erbyn hyn yn ystod y cyfnod trosglwyddo, mae'r cynigiwr yn bwriadu cynyddu'r capasiti yn Ysgol Gymunedol Tonyrefail gan 30 lle. Wrth symud ymlaen o 2025, mae'r cynigiwr yn nodi bod angen glynu at weithredu'r meini prawf derbyn yn llym i sicrhau bod disgyblion sy'n byw yn y dalgylch yn gallu manteisio ar y lleoedd ysgol sydd eu hangen arnynt, ac yn cael blaenoriaeth dros ddisgyblion y tu allan i'r dalgylch.

Mae'r cynigiwr yn rhoi ystyriaeth dda i effaith y cynigion ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn yr awdurdod lleol a'r graddau y mae'r cynnig yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr awdurdod lleol. Mae'r cynigiwr yn cydnabod bod angen darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau mewn ysgolion, ac yn amlinellu cynlluniau i gefnogi hyn yn Ysgol Gymunedol Tonyrefail. Yn ogystal â hyn, mae'r cynnig yn cydnabod bod ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg o fewn dalgylch Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg sydd â chapasiti digonol i ddisgyblion o'r ysgol hon ei mynychu pe bai rhieni / gofalfwyr yn penderfynu gwneud hynny. Mae'r cynnig yn nodi, ac yn ymddangos ei fod yn trefnu, bod cymorth ar gael i ddisgyblion i symud o ysgol cyfrwng Saesneg i ysgol cyfrwng Cymraeg, pe bai angen.

Mae'r cynigiwr wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn rhan o'r cynnig hwn. Mae Estyn yn rhoi ei farn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig, ac nid yw'n gwerthuso'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, na'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r cynnig yn rhoi ystyriaeth addas i'r agweddau addysgol ar y cynnig. Mae'n nodi deilliannau'r ddwy ysgol yn yr arolygiadau diweddaraf gan Estyn a'r argymhellion ar gyfer gwella. I ryw raddau, mae'n ystyried sut bydd symud i safle ysgol pob oed yn helpu mynd i'r afael â'r argymhellion hyn. Er enghraifft, mae'r cynnig yn nodi: 'Bydd mwy o ddisgyblion yn cael mynediad i amgylchedd dysgu yn yr 21ain ganrif sy'n darparu gofodau addysgu estynedig, ardaloedd adnoddau dynodedig, amgylcheddau dysgu ysgogol a'r offer TGCh diweddaraf'. Mae'r cynnig yn nodi sut bydd y ddarpariaeth yn cael ei gwella ymhellach fel adeilad ysgol yn addas at ei ddiben a fyddai'n helpu staff i ddarparu profiadau dysgu ehangach a fyddai'n cyfrannu at gyflwyno cwricwlwm cytbwys, yn unol â'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Bydd amgylchedd dysgu gwell hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ddisgyblion, ac felly dewis gwell o ran eu profiadau dysgu. Mae'r cynnig yn ystyried manteision ysgol 3-19 o ran parhad profiad a dileu gostyngiadau ym mherfformiad disgyblion yn y cyfnod pontio.

Mae'r cynigiwr yn ystyried y bydd y newidiadau arfaethedig yn gwella'r dysgu, y lles a'r hyblygrwydd yn y profiadau i'w darparu ar gyfer pob un o'r disgyblion. Mae'r cynnig yn ystyried, yn rhannol, effaith y cynnig ar grwpiau bregus, yn cynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol, ond nid yw'n darparu gwybodaeth ddigonol yn y maes hwn. Mae'n nodi y bydd 'Adeilad cwbl hygyrch a gofodau hyblyg yn cael eu darparu a fydd yn galluogi Ysgol Gymunedol Tonyrefail i ymestyn ei harfer dda a hwyluso ymyriadau pellach, yn cynnwys ffyrdd o feithrin disgyblion, yn ogystal ag ymgysylltu'n barhaus â theuluoedd a'r gymuned leol.' Fodd bynnag, nid yw'n nodi'n benodol sut y bydd yn diwallu anghenion y cynnydd yn nifer y disgyblion ag ADY (9) a fydd o bosibl yn trosglwyddo i'r ysgol a bron dwbl nifer bresennol y disgyblion ag ADY (10).

Mae'n ymddangos bod y cynnig wedi ystyried y capasiti ar gyfer arweinyddiaeth y gall ysgol fwy ei ddarparu gyda mwy o gyfleoedd proffesiynol a dilyniant ar gyfer y staff addysgu a'r staff cymorth, a mwy o gyfle ar gyfer modelau dosbarthedig arweinyddiaeth.

Mae'r cynnig yn nodi bod cynigion ad-drefnu ysgolion yn anochel yn achosi tarfu ac ansicrwydd. Mae'n nodi bod profiad yn dangos y gellir cadw hyn i isafswm trwy ymgysylltiad ystyrion trwy gydol y broses ymgynghori, ac mae wedi cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'n ymddangos bod y cynnig yn cydnabod yr angen am gymorth pontio targedig, cadarnhaol ac ystyrion ar gyfer

disgyblion Tref-y-Rhyg os byddant yn trosglwyddo ysgolion, wrth iddynt ddod yn gyfarwydd â'u lleoliad newydd.